Archwilio Cymru
Audit Wales

A yw ystadau'r GIG yn addas ar gyfer y diben?

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Awst 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 61(3)(b) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

Cynnwys

Ciplun archwiliad	4
Ffeithiau a ffigyrau allweddol	6
Ein canfyddiadau	7
Argymhellion	32
Atodiadau	34
1 Ynglŷn â'n gwaith	35
2 Maint a lleoliad y gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni yn y Bwrdd Iechyd	38
3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn	39
4 Ymateb y Rheolwyr	42

Ciplun archwiliad

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Fe wnaeth ein hadolygiad ystyried pa mor dda y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd) yn rheoli ei ystâd.

Pam fod hyn yn bwysig

2 Mae Ystâd y GIG yng Nghymru'n darparu'r seilwaith hanfodol i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae ganddi rôl allweddol o ran rhoi gofal diogel o ansawdd da a gwella profiad cleifion. Fodd bynnag, mae ystâd y GIG yn amrywio'n eang o ran oedran, cyflwr a lleoliad ledled Cymru. Mae ystâd sy'n cael ei chynnal a'i chadw'n wael yn creu risgiau i iechyd a diogelwch, gan gynnwys materion diogelwch tân a niwed posibl i gleifion. Gall ystâd sydd wedi mynd yn hen effeithio ar berfformiad gwasanaethau, defnyddio ynni'n llai effeithlon a bod yn rhwystr i roi gofal iechyd modern hefyd.

3 Mae angen i'r GIG yng Nghymru foderneiddio ei ystâd, cyflawni gwelliannau amgylcheddol, gwella mynediad ac addasu i ddiwallu anghenion gofal iechyd modern. Ceir nifer o strategaethau a chynlluniau yn y GIG sy'n ddibynnol ar welliannau i'r ystâd. Mae'r rhain yn amrywio o flaenoriaethau strategol uniongyrchol sy'n ymwneud â buddsoddi mewn seilwaith a buddsoddi cyfalaf, i'r gofynion i leihau allyriadau carbon a gwella effeithlonrwydd ynni.

4 Fe wnaeth y cynllun hirdymor a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2018 ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol – Cymru Iachach – amlygu pwysigrwydd ystâd y GIG fel galluogwr allweddol ar gyfer trawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys yr angen am gyfleusterau modern, cefnogi integreiddio digidol a ffocws ar effeithlonrwydd ynni ac arferion eco-gyfeillgar. Mae hyn i gyd yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol sylweddol ar draws y GIG yng Nghymru.

Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

5 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull strategol cryf o reoli ei ystâd, a ategir gan drefniadau llywodraethu eglur, cynllunio cyfalaf effeithiol, a defnydd da o wybodaeth reoli. Mae ei gynllun strategol ystadau'n cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau sefydliadol a chenedlaethol, ac mae buddsoddi cyfalaf yn cael ei dargedu trwy brosesau blaenoriaethu cadarn.

6 Fodd bynnag, mae'r ystâd yn wynebu heriau sylweddol. Mae adeiladau'n weddol hen, mae costau gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni gyda'r uchaf yng Nghymru, ac mae'r cyllid sydd ar gael ymhell islaw'r lefel y mae ei hangen i ymdrin â risgiau sy'n gysylltiedig ag ystadau a gwella cyflwr asedau. Mae risgiau sylweddol i ddiogelwch tân a dŵr yn dal i fodoli, ochr yn ochr â gwendidau mewn data ar yr ystâd, rheoli asedau, a gwybodaeth am effeithiau ar ddiogelwch. Er bod y gweithlu ystadau'n meddu ar ddigonedd o adnoddau ac yn cael ei ategu gan gynlluniau'r gweithlu, mae newidiadau mewn arweinyddiaeth, bylchau o ran hyfforddiant, a phwysau parhaus o ran cydymffurfio yn lleihau sicrwydd.

Yr hyn yr ydym yn ei argymell

7 Rydym wedi gwneud pum argymhelliad i'r Bwrdd Iechyd. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar y canlynol:

- cryfhau'r cynllun strategol ystadau;
- sefydlu mesur deilliant strategol ar gyfer ystadau;
- cryfhau cofrestrau asedau;
- gwella gwybodaeth am effaith cyflwr yr ystâd; a
- datblygu cynllun i ymdrin â risgiau i ddiogelwch tân a dŵr.

Ffeithiau a ffigyrau allweddol

197	Nifer yr adeiladau a oedd yn cael eu rheoli gan y Bwrdd Iechyd yn 2024-25.[1]
£24.3 miliwn	Arian cyfalaf a ddefnyddiwyd i wella ystadau yn 2025-26 (heb gynnwys cyllid ar ddiwedd y flwyddyn).
£221 miliwn	Cost i ddileu'r ôl-groniad wedi'i addasu ar gyfer risg yn 2024-25, cynnydd o 86% ers 2022-23. Mae ôl-groniad risg-uchel yn rhoi cyfrif am £35.9 miliwn.
10.4%	Y ganran o'r 3,701 o faterion yr ymdriniwyd â hwy yn dilyn asesiadau diogelwch tân yn 2024-25 erbyn diwedd mis Medi 2025.
70%	Y ganran o'r 792 o faterion yr ymdriniwyd â hwy yn dilyn asesiadau diogelwch dŵr yn 2024-25 erbyn diwedd mis Medi 2025.
6.8%	Cyfradd adeiladau gwag yn yr ystadau ar ddiwedd mis Mawrth 2025, o'i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan o 11.6%.

[1] Mae nifer yr adeiladau'n seiliedig ar yr wybodaeth a gyflwynwyd i'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS) yn 2024-25. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi mai 84 yw'r nifer bellach (lesddaliadol a rhydd-ddaliadol).

Ein canfyddiadau

Dull strategol o ymdrin ag ystadau

Ar y cyfan, mae gan y Bwrdd lechyd gynllun strategol ystadau sy'n gryf ac wedi'i alinio'n dda

8 Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth eglur ar gyfer ei ystâd.

9 Mae gan y Bwrdd Iechyd Gynllun Strategol Asedau Eiddo ar gyfer y cyfnod rhwng 2023 a 2026, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mai 2023. Mae'r cynllun yn darparu dull eglur o reoli, gwella a lleihau maint ei ystâd lle y bo'n briodol.

10 Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu Strategaeth Ystadau newydd ac yn bwriadu diweddaru'r Cynllun Strategol Asedau Eiddo ar gyfer y cyfnod rhwng 2027 a 2030. Bydd hyn yn sicrhau bod y ddwy ddogfen yn adlewyrchu cyfeiriad strategol y Bwrdd Iechyd sydd wedi'i ddiweddaru ac yn ategu ei flaenoriaethau yn y tymor byr, canolig a hir.

11 Fe wnaeth yr Adran Ystadau a Chyfleusterau ddatblygu'r cynllun ac mae'n ei ddiweddaru pan fo cynlluniau'r ystâd yn newid. Mae nifer o raglenni'n ategu'r cynllun strategol, gan gynnwys y Rhaglen Eiddo ac Amgylchedd Strategol, y Model Landlord Corfforaethol, y Rhaglen Ddatgarboneiddio, y Fframwaith Defnydd o Le, a'r Cynllun Buddsoddi mewn Seilwaith.

12 Yn gadarnhaol, mae'r cynllun strategol:

- yn tynnu ar amrywiaeth o ddata a oedd ar gael ar adeg ei ddatblygu;
- yn cwmpasu ysbytai acíwt a chymunedol, cyfleusterau iechyd meddwl, canolfannau iechyd, adeiladau gweinyddol, ac eiddo lesddaliadol;
- yn ategu strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd 'Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach' a'i uchelgeisiau trawsnewid gwasanaethau, gan gynnwys achos busnes y rhaglen;

- yn cyd-fynd â chynlluniau galluogol allweddol gan gynnwys gwasanaethau clinigol, technoleg ddigidol, adeiladau, a datgarboneiddio;
- yn ategu blaenoriaethau cenedlaethol megis datgarboneiddio, llesiant, a chydweithio yn y sector cyhoeddus;
- yn adlewyrchu ymrwymiadau i gynaliadwyedd, effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy, lleihau gwastraff a bioamrywiaeth;
- yn adnabod cyfleoedd i weithio gyda phartneriaid trwy hybiau cymunedol a chanolfannau gofal integredig; ac
- yn nodi cyfleoedd i wella a lleihau'r ystâd trwy waredu eiddo, lleihau lesoedd, a datrysiadau newydd lle mae adeiladau yn y cwestiwn.

13 Fodd bynnag, nid yw'r cynllun strategol:

- yn cynnwys cerrig milltir, mesurau, na thargedau eglur, er bod gan rai prosiectau raddfeydd amser cyflawni;
- yn nodi cynllun ariannol a ariennir yn llawn ac sy'n fforddiadwy i ddiwallu'r holl anghenion o ran yr ystâd; nac
- yn esbonio'n glir sut y mae dyletswyddau cydraddoldeb ac economaidd-gymdeithasol y Bwrdd Iechyd yn effeithio ar benderfyniadau o ran cynllunio'r ystâd.

14 Fe ymgysylltodd y Bwrdd Iechyd yn sylweddol â staff, cleifion a rhanddeiliaid ehangach wrth ddatblygu ei strategaeth hirdymor, Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach, a'i uchelgeisiau trawsnewid gwasanaethau. Fe wnaeth hyn oleuo datblygiad y Cynllun Strategol Asedau Eiddo.

Trefniadau llywodraethu ar gyfer rheoli ystadau

Mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau llywodraethu a goruchwylio risg cryf ar gyfer ystadau, ond mae bylchau mewn arweinyddiaeth, a risgiau hirsefydlog yn lleihau sicrwydd

Llinellau atebolrwydd

15 Mae'r Bwrdd Iechyd yn newid pwy sy'n gyfrifol am ystadau. Yn ystod ein harchwiliad ni, y Cyfarwyddwr Gweithredol Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Gwyddor Iechyd oedd yn gyfrifol am ystadau gweithrediadol. Y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio oedd yn gyfrifol am brosiectau eiddo a chyfalaf dewisol. Cyn hyn, y Prif Swyddog Gweithredu oedd yn dal y naill a'r llall o'r swyddogaethau hyn tan 2025.

16 Fe symudodd cyfrifoldeb am brosiectau eiddo a chyfalaf dewisol gydag ystadau gweithrediadol i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Gwyddor Iechyd i ddechrau, cyn trosglwyddo i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio ym mis Medi 2025. Y Cyfarwyddwr Gweithredol Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Gwyddor Iechyd sy'n dal i fod yn gyfrifol am ystadau gweithrediadol. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau proses newid sefydliadol i symud y tîm ystadau dan y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio. Mae'r newid i fod i ddod i rym erbyn mis Medi 2026.

Goruchwyliaeth gorfforaethol

17 Ceir goruchwyliaeth eglur ar ystadau ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau.

18 Mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd rheolaidd ynghylch materion ystadau trwy ei strwythur pwyllgorau. Mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau ar risgiau a datblygiadau sylweddol sy'n gysylltiedig ag ystadau. Er enghraifft, ym mis Mai 2026, cafodd ddiweddariad ar gynlluniau ar gyfer ail generadur yn Ysbyty'r Tywysog Philip. Mae hefyd yn cael adroddiadau trwy eithriad gan y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio sy'n amlygu materion arwyddocaol.

19 Y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio sy'n goruchwylio perfformiad, buddsoddi, a datblygu strategol lle mae'r ystâd yn y cwestiwn. Mae hefyd yn monitro'r brif risg sy'n gysylltiedig â moderneiddio'r ystâd ac offer. Mae'r pwyllgor yn adolygu'r risg hon yn rheolaidd ac yn ystyried ansawdd y sicrwydd a ddarperir gan y tîm Ystadau.

20 Mae'r Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio'n adolygu strategaethau, cynlluniau buddsoddi, rhaglenni cyfalaf, achosion busnes mawr, a phrosiectau seilwaith mewn perthynas ag ystadau cyn eu hatgyfeirio at y Bwrdd, lle y bo angen. Mae hefyd yn monitro cynnydd yn erbyn cynlluniau a phrosiectau cyfalaf ystadau, yn cael diweddariadau gan yr Is-Bwyllgor Cyfalaf, ac yn adolygu risgiau sy'n gysylltiedig ag ystadau.

21 Yn ystod y chwe mis diwethaf, mae'r Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio wedi adolygu diweddariadau am raglenni cyfalaf, adroddiadau ar gyflwr a pherfformiad ystadau, prosiectau'r Gronfa Ystadau a Dargedir, a materion penodol megis lesoedd, pwysau seilwaith, a datblygiadau mawr. Fe wnaeth adroddiadau ar gyfer y pwyllgor hefyd amlygu costau cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni yn y Bwrdd Iechyd ac egluro'r risgiau y mae'r rhain yn eu hachosi i barhad gwasanaethau, cydymffurfio statudol, diogelwch cleifion, gwydnwch gweithrediadol a chynaliadwyedd ariannol.

Rheoli gweithrediadol

22 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithredu heb Gyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau parhaol ers 2024. Felly yr oedd hi yn dilyn newid i rôl y deiliad swydd blaenorol fel Cyfarwyddwr Ystadau, Cyfleusterau a Rheoli Cyfalaf. Ers mis Awst 2024, roedd y Cyfarwyddwr blaenorol wedi symud i swydd newydd yn y Tîm Cyfalaf Mawr.

23 Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd hysbysebu'r rôl Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau ym mis Hydref 2025 ond nid oedd yn gallu penodi i'r swydd. Mae'r rôl wedi cael ei diwygio ers hynny i gynnwys cyfrifoldeb am gyfalaf. O ganlyniad, mae gan y Bwrdd Iechyd uwch arweinyddiaeth gyfyngedig ar gyfer ystadau ac yntau'n rheoli risgiau sylweddol i ystadau, pwysau buddsoddi, a newidiadau mawr i wasanaethau.

24 Mae gwasanaethau ystadau o ddydd i ddydd wedi bod yn cael eu harwain gan y Pennaeth Gwasanaethau Gweithrediadol Ystadau a Chyfleusterau. Yn niffyg Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau parhaol, mae deiliad y swydd wedi bod yn atebol i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Gwyddor Iechyd. Ategir y rôl gan uwch reolwyr sy'n gyfrifol am gynnal a chadw a pheirianneg, risg a chydymffurfio ar gyfer ystadau, gwasanaethau eiddo, gwasanaethau cyfleusterau, ac iechyd a diogelwch.

25 Mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu ei drefniadau rheoli ystadau trwy broses newid sefydliadol. Bydd y strwythur arfaethedig yn gwahanu gwasanaethau ystadau a chyfalaf oddi wrth wasanaethau cyfleusterau ac iechyd a diogelwch corfforaethol. Bydd cyfleusterau ac iechyd a diogelwch corfforaethol yn dal i fod dan y Cyfarwyddwr Gweithredol Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Gwyddor Iechyd. Dylai'r newidiadau wella atebolrwydd a sicrhau bod cyfrifoldebau'n cyd-fynd yn fwy â blaenoriaethau strategol. Ar adeg ein gwaith ni, roedd y broses newid sefydliadol yn dal wrthi'n mynd rhagddi.

26 Y Grŵp Llywodraethu Integredig Ystadau a Chyfleusterau yw prif grŵp goruchwylio gweithrediadol y Bwrdd Iechyd ar gyfer ystadau a chyfleusterau. Mae'n cwrdd yn fisol ac yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr o dimau ystadau, cyfleusterau, cyllid, y gweithlu, ac iechyd a diogelwch. Mae'r grŵp yn adolygu perfformiad, ansawdd a diogelwch, materion y gweithlu, cyllid, risg, a chydymffurfio statudol. Mae hefyd yn goruchwylio camau gweithredu sy'n codi o archwiliadau, arolygiadau, digwyddiadau, ac asesu risg. Mae'r grŵp yn adrodd ar faterion allweddol trwy strwythur llywodraethu'r Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a'r Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio.

27 Mae nifer o grwpiau gweithrediadol yn cefnogi'r Grŵp Llywodraethu Integredig Ystadau a Chyfleusterau. Mae'r rhain yn cwmpasu gweithrediadau, cynnal a chadw a pheirianneg ystadau, rheoli cyfleusterau, iechyd a diogelwch, a risg a chydymffurfio mewn perthynas ag ystadau. Mae'r grwpiau'n cwrdd yn fisol ac yn gweithredu dan gylchoedd gorchwyl y cytunwyd arnynt. Maent yn adolygu perfformiad gwasanaethau, risgiau gweithrediadol, cydymffurfio statudol, materion y gweithlu, a chynnydd yn erbyn cynlluniau gwella. Mae materion y mae gofyn eu goruchwylio'n ehangach yn cael eu huwchgyfeirio at y Grŵp Llywodraethu Integredig Ystadau a Chyfleusterau.

28 Mae cofnodion y grwpiau hyn yn dangos craffu rheolaidd ar faterion perfformiad, ansawdd a diogelwch, y gweithlu, cyllid, risg, a chydymffurfio. Mae logiau gweithredu a chofrestrau risgiau'n ategu'r oruchwyliaeth hon. Fodd bynnag, mae rhai gwendidau'n dal i fodoli, gan gynnwys bylchau mewn data ar gyflwr yr ystâd a newid sefydliadol parhaus.

29 Ar adeg ein gwaith ni, roedd y Bwrdd Iechyd yn ystyried Model Landlord Cofrestredig i gryfhau trefniadau llywodraethu ar gyfer yr ystâd. Byddai'r model yn dod â'r cyfrifoldeb am gynllunio'r ystâd, buddsoddi ynddi, a'i chynnal a'i chadw dan un fframwaith. Dylai hyn ategu dull mwy cydgysylltiedig o reoli asedau'r ystâd, y broses cynllunio cyfalaf ac o ymdrin â risgiau sy'n ymwneud â'r ystâd ar draws y sefydliad. O'i roi ar waith yn effeithiol, gallai wella goruchwyliaeth a helpu i sicrhau bod penderfyniadau ynglŷn â'r ystâd yn cyd-fynd â blaenoriaethau gwasanaethau.

Rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r ystâd

30 Mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau eglur ar gyfer adnabod a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r ystâd. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hyn wedi lleihau lefel y risg ar y cyfan eto.

31 Mae cyflwr a chynaliadwyedd hirdymor yr ystâd yn risg strategol allweddol i'r Bwrdd Iechyd. Mae'r risg wedi'i chynnwys yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ac yn ategu Nod Cynllunio 8, dan Amcan Strategol 4, Dyfodol Cadarnhaol.

32 Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cydnabod y gallai adeiladau sy'n heneiddio, ôl-groniadau cynnal a chadw cynyddol, a dibyniaeth ar gyllid cyfalaf effeithio ar ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r risg yn dal i fod yn un o'r risgiau strategol â'r sgoriau uchaf yn y Bwrdd Iechyd, sy'n amlygu'r anghenion i fuddsoddi yn yr ystâd a'i moderneiddio.

33 Fodd bynnag, nid oes gan y Bwrdd fesur deilliant strategol i ddangos a yw perfformiad yr ystâd yn gwella dros amser.

34 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau, gan gynnwys y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, yn adolygu'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn rheolaidd. Mae risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â'r ystâd yn cynnwys adeiladau a seilwaith sy'n heneiddio, cydymffurfio â gofynion diogelwch tân, a chapasiti corffdai. Mae'r gofrestr yn amlygu'r risg y gallai adeiladau a seilwaith sy'n dirywio effeithio ar ddarparu gwasanaethau'n ddiogel. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cael adroddiadau rheolaidd ar reoli risg hefyd.

35 Ym mis Gorffennaf 2026, roedd gan y gwasanaethau Ystadau a Chyfleusterau 136 o risgiau agored, mwy nag unrhyw faes gwasanaeth arall. Nododd y Bwrdd Iechyd fod angen cyllid cyfalaf i ymdrin â 76% o'r risgiau hyn.

36 Mae cofrestrau risgiau gweithredol yn darparu gwybodaeth fanwl am risgiau sy'n gysylltiedig â'r ystâd. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni, cydymffurfio statudol, diogelwch tân, capasiti'r gweithlu, a phrosiectau mawr.

37 Y gwasanaethau Ystadau a Chyfleusterau a gyflawnodd y sgôr sicrwydd uchaf yn fframwaith uwchgyfeirio mewnol y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn awgrymu bod gan y gwasanaeth drefniadau effeithiol i adnabod, monitro a rheoli risg. Fodd bynnag, er gwaethaf goruchwylio a llywodraethu cryf, nid oes rhyw lawer o dystiolaeth bod sgoriau risg wedi lleihau dros gyfnod parhaus. Mae hyn i'w briodoli i raddau helaeth i'r diffyg cyllid cyfalaf sydd ar gael.

Defnyddio adnoddau ariannol i wella ystadau

Mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli ei gyllid cyfalaf yn dda, ond mae ar yr ystâd angen mwy o fuddsoddiad na'r cyllid sydd ar gael

Y broses blaenoriaethu cyllid

38 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull cadarn o ran sut y mae'n blaenoriaethu'r cronfeydd cyfalaf sydd ar gael i wella ei ystâd.

39 Yn 2025-26, roedd gan y Bwrdd Iechyd £7.4 miliwn o gyllid dewisol a chronfeydd wedi'u neilltuo i'w fuddsoddi yn ei ystâd. Mae'r buddsoddiad hwn wedi cynyddu o'i gymharu â'r ddwy flynedd ariannol flaenorol (**Arddangosyn 1**).

Arddangosyn 1: defnydd o gronfeydd dewisol ac wedi'u neilltuo ar gyfer ystadau yn 2023-24, 2024-25 a 2025-26 (£ miliwn)

Cronfa	2023-24	2024-25	2025-26
Dyraniad cyfalaf dewisol	1.5	1.9	1.7
Cyllid y Bwrdd Cynghori ar Ystadau a Chyfleusterau (EFAB)	4.2	3.7	0.1
Y Gronfa Ystadau wedi'i Thargedu (TEF) [2]	–	–	5.6
CYFANSWM	**5.7**	**5.6**	**7.4**

[2] Rhaglen o gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru sydd wedi'i bwriadu i ymdrin â risgiau a diffygion penodol y rhoddir blaenoriaeth uchel iddynt yn ystâd GIG Cymru, yn enwedig y rhai sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion, cydymffurfio statudol a gwydnwch gwasanaethau. Fe wnaeth y Gronfa Ystadau wedi'i Thargedu (TEF) ddisodli cyllid y Bwrdd Cynghori ar Ystadau a Chyfleusterau (EFAB) yn 2025-26.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ffurflenni monitro misol ariannol

40 Yn 2025-26, cafodd y Bwrdd Iechyd £16.9 miliwn o arian cyfalaf Cymru gyfan hefyd, ar ben ei ddyraniad o'r Gronfa Ystadau wedi'i Thargedu. Fe wnaeth y cyllid hwn gefnogi uwchraddiadau i seilwaith, gwaith cynnal a chadw a oedd wedi ôl-gronni, gwaith diogelwch tân, a gwelliannau i gyfleusterau gofal iechyd ar draws yr ystâd.

41 Ar y cyfan, cafodd y Bwrdd Iechyd £24.3 miliwn i'w fuddsoddi yn yr ystâd. Fodd bynnag, mae hyn yn is o lawer na'r £221 miliwn yr amcangyfrifwyd fod ei angen i ymdrin â'r ôl-groniad wedi'i addasu ar gyfer risg a'r £159 miliwn yr amcangyfrifwyd fod ei angen i wella'r ystâd fel ei bod yn cyrraedd safon cyflwr ffisegol B, yn seiliedig ar amcangyfrif 2024-25.

42 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi sicrhau cyllid trwy raglenni megis Buddsoddi i Arbed a'r Cynllun Ynni Iechyd a Gofal i gefnogi prosiectau effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio.

43 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau eglur i ddyrannu cyllid cyfalaf. Mae gwasanaethau'n adnabod ac yn blaenoriaethu cynlluniau cyn cyflwyno cynigion. Wedyn mae'r timau ystadau, digidol ac offer yn adolygu'r rhain ac yn eu gosod mewn trefn restrol cyn bod y Grŵp Cynllunio Cyfalaf yn eu hystyried.

44 Mae'r Grŵp Cynllunio Cyfalaf yn adolygu ac yn blaenoriaethu cynlluniau cyn eu bod yn cael eu rhoi i mewn i'r rhaglen gyfalaf. Mae'r Is-Bwyllgor Cyfalaf a'r Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio'n darparu her a goruchwyliaeth bellach. Gyda'i gilydd, mae'r trefniadau hyn yn darparu proses eglur i wneud penderfyniadau buddsoddi ac yn ategu atebolrwydd am gyflawni'r rhaglen.

45 Ym mis Mai 2025, fe wnaethom adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer blaenoriaethu buddsoddi cyfalaf. Canfuom ddull strwythuredig o asesu a blaenoriaethu cynlluniau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio cofrestrau risgiau, data ar waith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni, arolygon o gyflwr, ac anghenion gwasanaethau i dargedu buddsoddiad tuag at risgiau i gydymffurfio statudol, iechyd a diogelwch, a pharhad busnes.

46 Gall heriau ymarferol effeithio ar gyflawni, gan gynnwys tarfu ar wasanaethau, cysylltiadau rhwng prosiectau, a gosod rhaglenni mewn trefn. I reoli'r risgiau hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn cadw rhestr wrth gefn o gynlluniau. Mae hyn yn ei gwneud hi'n bosibl ailgyfeirio cyllid pan fo llinellau amser prosiectau'n newid neu fod cyllid ychwanegol ar gael.

Monitro a rheoli cronfeydd cyfalaf


47 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull cryf ar gyfer monitro a rheoli ei wariant cyfalaf.

48 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau eglur ar gyfer goruchwylio buddsoddi cyfalaf. Mae'r Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio'n goruchwylio'r rhaglen gyfalaf ac yn adolygu'r Cynllun Buddsoddi mewn Seilwaith. Mae'n cael adroddiadau rheolaidd ar gynnydd. Mae'r Is-Bwyllgor Cyfalaf a'r Grŵp Cynllunio Cyfalaf yn cefnogi'r gwaith hwn. Gyda'i gilydd, mae'r grwpiau hyn yn goruchwylio'r modd y cyflawnir cynlluniau cyfalaf.

49 Mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu gwariant cyfalaf a pherfformiad prosiectau'n rheolaidd. Mae grwpiau llywodraethu'n monitro cyllidebau, cynnydd yn erbyn cynlluniau, cerrig milltir allweddol, a risgiau sy'n dod i'r amlwg. Mae timau prosiectau'n defnyddio adroddiadau ar y prif bwyntiau a dangosfyrddau i dracio gweithgarwch cyflawni. Mae hyn yn helpu rheolwyr a phwyllgorau i adnabod problemau'n gynnar a gweithredu pan fo angen.

50 Fe wnaethom adolygu'r proffil gwariant ar gyfer dyraniad dewisol y Bwrdd Iechyd yn 2024-25 a 2025-26. Dengys ein dadansoddiad fod y Bwrdd Iechyd wedi defnyddio ei ddyraniad dewisol yn llawn, er ein bod wedi canfod bod y rhan fwyaf o wariant yn digwydd tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol (**Arddangosyn 2**).

Arddangosyn 2: gwariant dewisol cronnus misol ar yr ystâd, o'i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan, ar gyfer 2024-25 a 2025-26 (canran o gyfanswm y gwariant)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ffurflenni monitro misol ariannol

51 Yn 2025-26, cafodd y Bwrdd Iechyd £3.3 miliwn yn ychwanegol o gyllid diwedd blwyddyn gan Lywodraeth Cymru, y gellid ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau ystadau. Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i wario'r cyllid yn effeithiol. Fodd bynnag, am ei fod wedi cael y cyllid yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, fe greodd batrwm gwario anwastad. Fe gyfyngodd hefyd ar yr ystod o brosiectau y gellid eu cyflawni o fewn y ffrâm amser a oedd ar gael.

52 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau eglur ar gyfer rheoli prosiectau mawr. Mae rhaglen y Contract Perfformiad Ynni'n enghraifft dda. Mae'r rhaglen yn defnyddio prosesau adrodd ffurfiol, monitro ariannol, rheoli risg ac uwchgyfeirio. Mae grwpiau llywodraethu'n adolygu cynnydd a risgiau trwy Grŵp Perfformiad a Gwella'r Ystâd a threfniadau llywodraethu ehangach ar gyfer ystadau. Mae pwyllgorau'r Bwrdd yn darparu goruchwyliaeth bellach, ac mae perfformiad ariannol yn cael ei fonitro trwy gydol y rhaglen.

53 Mae’r Bwrdd Iechyd yn gweithio gydag awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i gyflawni datblygiadau mawr mewn perthynas ag ystadau, gan gynnwys datblygu Cylch Caron, Pentre Awel a Hyb Caerfyrddin. Mae cynnydd, cyllid a risgiau i gyflawni ar gyfer y cynlluniau hyn yn cael eu monitro trwy’r Is-Bwyllgor Cyfalaf ac adroddiadau ar hynny’n cael eu cyflwyno i’r Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio.

Sicrhau ystâd effeithlon a chynhyrchiol

Mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli ei ystâd yn dda ond mae'n wynebu materion sylweddol o ran risgiau i'w chyflwr, pwysau buddsoddi a gwendidau mewn data sy'n cyfyngu ar gynllunio a sicrwydd hirdymor

Cyflwr yr ystâd

54 Mae ystâd y Bwrdd Iechyd yn hŷn mewn cymhariaeth, mae ganddi fwy o risg sydd wedi ôl-gronni ac mae angen buddsoddiad uwch ynddi i wella'r cyflwr ffisegol.

55 O'i gymharu â'r sefyllfa dros Gymru gyfan, mae gan y Bwrdd Iechyd gyfran uchel o'r ystâd a adeiladwyd cyn 1995, y drydedd gyfran uchaf yng Nghymru. Mae'r gost i ddileu ôl-groniad risg-uchel am bob metr sgwâr hefyd yn ei osod yn safle'r trydydd uchaf yng Nghymru, er bod cost gwaredu ôl-groniad risg-uchel a sylweddol yn uwch nag yn unrhyw un o'r sefydliadau iechyd eraill yng Nghymru. Er bod y gyfran o'r ystâd sy'n cyrraedd y safon cyflwr ffisegol ofynnol yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, mae'r gost i gyrraedd safon cyflwr ffisegol B yn ail uchaf yng Nghymru (**Arddangosyn 3**).

Arddangosyn 3: oedran a chyflwr yr ystâd, o'i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan, 2024-25

Mesur	Y Bwrdd Iechyd	Sefyllfa Cymru gyfan[3]
% o'r ystâd a adeiladwyd cyn 1948	7.1	13.5
% o'r ystâd a adeiladwyd cyn 1995	76.1	63.9

[3] Mae hefyd yn cynnwys Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, a oedd y tu hwnt i gwmpas yr archwiliad.

Mesur	Y Bwrdd Iechyd	Sefyllfa Cymru gyfan[3]
Cost i waredu ôl-groniad risg-uchel am bob m^2 o arwynebedd llawr a feddiannir (£)	188.25	164.60
Cost i waredu ôl-groniad risg-uchel am bob m^2 o arwynebedd llawr a feddiannir (£)	1,145.22	458.43
% o'r ystâd sy'n cyrraedd y safon cyflwr ffisegol	86	83
Cost i gyrraedd safon cyflwr ffisegol B am bob m^2 o arwynebedd llawr a feddiannir (£)	833.30	538.54

Ffynhonnell: System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS)

56 Ar draws safleoedd y Bwrdd Iechyd, mae cost gwaredu ôl-groniad risg-uchel ar ei huchaf yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg, sef £570.26 am bob m^2 o arwynebedd llawr a feddiannir. Mae'r gost i gyrraedd safon cyflwr ffisegol B ar ei huchaf yn Ysbyty Dyffryn Aman, sef £3,128.86 am bob m^2 o arwynebedd llawr a feddiannir.

57 Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi defnyddio arolygon allanol i ategu ei ffigyrau ôl-groniad. O'r 22 o safleoedd y Bwrdd Iechyd a roddwyd i mewn i'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau, mae 19 yn dibynnu ar arolygon mewnol a gwblhawyd yn 2022. Nid yw dau gofnod wedi cael eu hadolygu, ac mae un wedi'i gofnodi fel 'arall'. Mae dibynnu ar arolygon mewnol yn bennaf yn lleihau sicrwydd annibynnol ac fe all effeithio ar gysondeb a dibynadwyedd y data a ddefnyddir i asesu risg a blaenoriaethu buddsoddi cyfalaf.

58 Mae gan arolygon rychwant oes cyfyngedig hefyd am eu bod yn adlewyrchu cyflwr yr ystâd ar adeg benodol mewn amser. Wrth i adeiladau heneiddio ac i amgylchiadau newid, mae gwerth y data'n lleihau. Fe adolygodd y Bwrdd Iechyd yr holl safleoedd ddiwethaf yn 2022. Ers hynny, mae ei ystâd wedi newid oherwydd asedau sy'n heneiddio, gofynion cydymffurfio newydd, ac anghenion newidiol gan wasanaethau. Mae parhau i ddibynnu ar yr arolygon hyn yn cynyddu'r risg bod penderfyniadau'n seiliedig ar hen wybodaeth nad yw'n adlewyrchu cyflwr cyfredol yr ystâd mwyach.

59 Mae RAAC (Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth) yn bresennol ar safleoedd dau o ysbytai acíwt y Bwrdd Iechyd: Ysbyty Bronglais ac Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cofnodi'r mater hwn ar ei gofrestr risgiau corfforaethol.

60 Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd asesu cyflwr y paneli RAAC ddiwethaf yn 2024 ym Mronglais ac yn 2025 yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg. Mae wedi cael cyllid cyfalaf i wneud gwaith lliniaru. Er bod y gwaith hwn yn helpu i leihau risgiau sydd ar fin digwydd, nid yw'n gwaredu'r angen am ddatrysiadau hirdymor.

61 Ni ddarparodd y Bwrdd Iechyd fanylion rhaniad y gyllideb wedi'i chynllunio rhwng gwaith cynnal a chadw ataliol wedi'i gynllunio a gwaith cynnal a chadw adweithiol. Yn lle hynny, darparodd wariant gwirioneddol yn unig. Mae hyn yn cyfyngu ar dryloywder ac yn ei gwneud hi'n anos asesu a yw adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon. Heb ddadansoddiad o'r gyllideb wedi'i chynllunio, ni all y Bwrdd Iechyd ddangos yn glir a yw'n blaenoriaethu gwaith cynnal a chadw ataliol ynteu'n ymateb i faterion wrth iddynt godi.

Gwybodaeth reoli gadarn

62 Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio gwybodaeth reoli'n dda i reoli ei ystâd.

63 Mae'n defnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth i fonitro cyflwr yr ystâd, ei pherfformiad, sut y mae'n cael ei defnyddio, a gofynion o ran yr ystâd yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau ar gyflwr asedau, cofrestrau risgiau, arolygon mewnol, a data ar ôl-groniadau.

64 Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau i feincnodi perfformiad. Mae'n defnyddio'r system i gymharu safleoedd yn y sefydliad ac i gymharu perfformiad â byrddau iechyd eraill Cymru. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod yr angen i ddefnyddio'r wybodaeth hon yn fwy systematig yn y dyfodol i adrodd ar berfformiad yr ystâd, effeithlonrwydd adeiladau ac effaith cynlluniau caffael a rhesymoli.

65 Mae gan y Bwrdd Iechyd system CAFM (rheoli cyfleusterau â chymorth cyfrifiadur). Dengys tystiolaeth fod gwelliannau i adroddiadau CAFM wedi bod o gymorth i fonitro gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio a dangosyddion perfformiad allweddol.

66 Fodd bynnag, nid oes gan y Bwrdd Iechyd un system rheoli asedau na chofrestr asedau gwbl ddibynadwy. Mae gwybodaeth wedi'i gwasgaru ar draws nifer o systemau, gan ei gwneud hi'n anos cysylltu cyflwr asedau, eu costau, a'u perfformiad. Mae hyn yn lleihau hyder yn y data ac yn cyfyngu ar allu'r Bwrdd Iechyd i gynhyrchu amserlenni cynnal a chadw dibynadwy. Mae hefyd yn ei gwneud hi'n anos dangos bod asedau'n cael y gwiriadau y mae eu hangen i gynnal cydymffurfiaeth.

67 Ceir cyfle hefyd i fynd ati ymhellach i ddatblygu adroddiadau ar berfformiad, meincnodi a data ar ddefnydd fel rhan o'r drefn arferol. Byddai hyn o gymorth i fonitro perfformiad yr ystâd yn fwy cynhwysfawr ac yn helpu'r Bwrdd Iechyd i ddangos y manteision a gyflawnir trwy newid yr ystâd.

Cynyddu cynhyrchiant ac effeithlonrwydd i'r eithaf

68 Mae'r Bwrdd Iechyd yn perfformio'n dda o ran addasrwydd swyddogaethol a defnydd o le. Fodd bynnag, ei ddefnydd o ynni yw'r uchaf yng Nghymru. Mae perfformiad ar draws y mesurau hyn hefyd wedi aros yn ddigyfnewid dros y tair blynedd ddiwethaf **(Arddangosyn 4)**.

Arddangosyn 4: perfformiad yr ystâd o ran cynhyrchiant ac effeithlonrwydd, o'i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan, 2024-25

Mesur	Y Bwrdd Iechyd	Sefyllfa Cymru gyfan[4]
% o'r ystâd sy'n addas yn swyddogaethol	90	84
% defnydd o le	99	92
perfformiad ynni (cilowatiau (kw))	474	367

Ffynhonnell: System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau

69 Ar draws safleoedd y Bwrdd Iechyd, Ysbyty Tregaron sydd â'r addasrwydd swyddogaethol isaf (38%). Y safle hwnnw hefyd sydd â'r ganran isaf o ran y defnydd o le, sef 40%.

70 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei ddull o ymdrin â defnydd o le trwy gyflwyno grŵp adeiladau misol ac Egwyddorion a Fframwaith Defnydd o Le ategol. Mae'r trefniadau hyn yn darparu goruchwyliaeth ar benderfyniadau ynglŷn ag adeiladau ac yn helpu i wneud defnydd gwell o'r lle sydd ar gael yn yr ystâd. Dangosodd astudiaeth achos yn Adeilad Sealyham, Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg, sut y gall data synwyryddion Occupeye amlygu ardaloedd nas defnyddir ddigon a rhoi cymorth i gynllunio capasiti.

71 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth gwaredu ystâd ar ei phen ei hun. Mae'n cynnwys gwarediadau arfaethedig fel rhan o'i Gynllun Strategol Asedau Eiddo. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwaredu chwe eiddo ers 2022, gan greu derbyniadau cyfalaf o £112,115. Mae wedi cadarnhau nad oes unrhyw safleoedd dan gyfyngiadau o ran eu gwerthu na'u haddasu.

[4] Mae hefyd yn cynnwys Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, a oedd y tu hwnt i gwmpas yr archwiliad.

72 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg i wella effeithlonrwydd yr ystâd a rhoi cymorth i ddatgarboneiddio. Trwy ei Gontract Perfformiad Ynni a'i raglen ddatgarboneiddio ehangach, mae'n buddsoddi mewn goleuadau LED (deuod allyrru golau), systemau solar ffotofoltaig (PV), gwresogi carbon-isel, optimeiddio gwresogi, systemau rheoli adeiladau, storio ynni mewn batris, a gwelliannau inswleiddio.

73 Er gwaethaf y buddsoddiad hwn, y Bwrdd Iechyd sydd â'r gyfran isaf o arwynebedd llawr mewnol a orchuddir gan oleuadau LED. Mae goleuadau LED yn gorchuddio 6.4% o'i arwynebedd llawr mewnol, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 45.4%.

Cefnogi ansawdd gofal

Mae risgiau sylweddol i ddiogelwch tân a dŵr, gwybodaeth wan a phwysau ar adnoddau'n lleihau sicrwydd ynghylch diogelwch cleifion a staff

Lleihau i'r eithaf y niwed i gleifion a staff

75 Mae gan y Bwrdd Iechyd wendidau o ran sut y mae'n rheoli ac yn lleihau risgiau i ddiogelwch sy'n gysylltiedig â chyflwr ei ystâd. Gall y risgiau hyn effeithio ar gleifion a staff.

76 Mae'r Bwrdd Iechyd yn adnabod materion a risgiau sy'n gysylltiedig â'r ystâd trwy nifer o ffynonellau. Mae'r rhain yn cynnwys cofrestrau risgiau, arolygon o gyflwr, asesiadau o waith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni, gwiriadau cydymffurfio statudol, systemau hysbysu am ddigwyddiadau, a threfniadau llywodraethu gweithrediadol.

77 Mae gan y Bwrdd Iechyd ystod o fecanweithiau i gasglu gwybodaeth am bryderon staff a defnyddwyr gwasanaethau trwy brosesau llywodraethu, hysbysu am ddigwyddiadau, a gweithrediadol presennol. Mae hyn yn cynnwys casglu gwybodaeth am bryderon staff trwy ei system DATIX a thrwy ymweliadau misol i wirio diogelwch safleoedd. Ym mis Gorffennaf 2026, roedd gan y Bwrdd Iechyd bedwar digwyddiad agored a oedd yn gysylltiedig ag ystadau.

78 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod cyfleoedd i gryfhau gweithgarwch systematig i gasglu gwybodaeth am brofiad a boddhad sy'n ymwneud yn benodol â'r ystâd ac i adrodd ar yr wybodaeth honno.

Sicrhau cydymffurfiaeth

79 Mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau rhesymol i sicrhau bod ei ystâd yn ateb gofynion cyfreithiol, er bod bylchau sylweddol yn ei gydymffurfiaeth.

80 O'i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan, mae'r Bwrdd Iechyd yn perfformio ychydig yn well ar y cyfan o ran ateb gofynion iechyd a diogelwch statudol. Fodd bynnag, ei gydymffurfiaeth â gofynion diogelwch tân yw'r isaf yng Nghymru. Mae perfformiad yn y ddau faes wedi aros yn ddigyfnewid dros y tair blynedd ddiwethaf **(Arddangosyn 5).**

Arddangosyn 5: arwynebedd llawr a feddiannir sy'n ateb gofynion statudol a diogelwch, o'i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan, 2024-25 (canran)

Mesur	Y Bwrdd Iechyd	Sefyllfa Cymru gyfan[5]
% yr arwynebedd llawer a feddiannir sy'n ateb gofynion iechyd a diogelwch statudol	88	87
% yr arwynebedd llawr sy'n ateb gofynion diogelwch tân statudol	67	84

Ffynhonnell: System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau

81 Ar draws safleoedd y Bwrdd Iechyd, Ysbyty Tregaron sydd â'r gydymffurfiaeth isaf â gofynion iechyd a diogelwch statudol, gyda dim ond 48% o'r arwynebedd llawr a feddiannir yn cyrraedd y safon ofynnol. Ysbyty Cyffredinol Glangwili sydd â'r lefel gydymffurfio ail isaf, sef 75%.

82 Hafan Derwen, ar safle Ysbyty Dewi Sant, sydd â'r gydymffurfiaeth isaf â gofynion diogelwch tân statudol, gyda dim ond 40% o'r arwynebedd llawr a feddiannir yn cyrraedd y safon ofynnol. Mae llai na 70% o'r arwynebedd llawr a feddiannir ar safleoedd pob un o'r pedwar ysbyty acíwt yn cydymffurfio â gofynion diogelwch tân. Ysbyty'r Tywysog Philip sydd â'r lefel gydymffurfio isaf ar 55%, sy'n golygu mai dyma'r safle ysbyty acíwt â'r perfformiad isaf yng Nghymru ar gyfer cydymffurfio â gofynion diogelwch tân.

[5] Mae hefyd yn cynnwys Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, a oedd y tu hwnt i gwmpas yr archwiliad.

83 Yn 2024-25, fe gwblhaodd y Bwrdd Iechyd yr holl asesiadau risg tân gofynnol. Canfu'r asesiadau hyn 3,701 o faterion. Erbyn mis Medi 2025, dim ond 10.4% ohonynt yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi'u datrys. Dywedodd y Bwrdd Iechyd nad oes ganddo ddigon o adnoddau i ymdrin â faint o waith y mae ei angen. Mae'n defnyddio proses flaenoriaethu i helpu i reoli'r ôl-groniad.

84 Mae gan y Bwrdd Iechyd dri hysbysiad gorfodaeth tân ffurfiol a 54 hysbysiad anffurfiol. Mae hyn yn dangos pryderon parhaus ynghylch diogelwch tân ar draws yr ystâd. Mae hysbysiadau ffurfiol yn dynodi bod gofynion cyfreithiol wedi cael eu torri, tra bo hysbysiadau anffurfiol yn amlygu meysydd y mae angen eu gwella. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n galed i ymdrin â'r materion a godwyd trwy'r hysbysiadau, gyda rhaglen gyflawni fesul cam dros y tymor hir yn ei lle.

85 Ar adeg ein gwaith ni roedd y Bwrdd Iechyd wedi cael un hysbysiad o fwriad i erlyn gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

86 Mae gan y Bwrdd Iechyd bolisi diogelwch dŵr ac mae'n cynnal asesiadau risg rheolaidd. Fodd bynnag, dim ond wyth o'r 12 o asesiadau gofynnol a oedd wedi cael eu cwblhau ar adeg ein gwaith ni. Canfu'r asesiadau hyn 792 o faterion, y mae'r Bwrdd Iechyd wedi datrys 70% ohonynt.

87 Dywedodd y Bwrdd Iechyd nad oes ganddo ddigon o Bersonau Cyfrifol a Dirprwy Bersonau Cyfrifol hyfforddedig. Mae prinderau staff a phwysau llwyth gwaith yn cyfyngu ar allu'r tîm i ateb gofynion diogelwch dŵr. Mae technoleg fonitro newydd hefyd wedi canfod materion arwyddocaol gyda systemau dŵr y mae gofyn gweithredu arnynt.

88 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau i fonitro cydymffurfiaeth â gofynion statudol a diogelwch. Mae'r rhain yn cynnwys trwy grwpiau llywodraethu gweithrediadol, swyddogaethau cydymffurfio a risg, cofrestrau risgiau ac adroddiadau rheolaidd i'r Grŵp Llywodraethu Integredig Ystadau a Chyfleusterau, y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, a'r Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio.


89 Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio polisïau cynnal a chadw, cofrestrau asedau, a systemau cynnal a chadw i fonitro cydymffurfiaeth ar draws ei ystâd a'i offer. Mae hefyd yn defnyddio cofrestrau risgiau gweithrediadol a chorfforaethol i gofnodi ac uwchgyfeirio meysydd lle ceir diffyg cydymffurfio a risgiau cysylltiedig.

Rheoli gweithlu'r ystâd

Mae gan y Bwrdd Iechyd dîm ystadau sydd wedi'i staffio'n dda a chynlluniau eglur ar gyfer y gweithlu, ond mae bylchau mewn hyfforddiant, newidiadau i arweinyddiaeth a data cyfyngedig ar y gweithlu'n lleihau sicrwydd

90 Mae gan y Bwrdd Iechyd dîm ystadau sy'n fwy na'r maint cyfartalog. Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, roedd ganddo 0.81 aelod o staff cyfwerth ag amser cyflawn yn eu swyddi am bob 1,000 m^2 o arwynebedd llawr a feddiannir, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 0.49 aelod o staff cyfwerth ag amser cyflawn (**Arddangosyn 6**).

Arddangosyn 6: maint y swyddogaeth ystadau am bob 1,000 m^2 o arwynebedd llawr a feddiannir, fesul corff yn y GIG ar 31 Mawrth 2025 (cyfwerth ag amser cyflawn)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata'r GIG

91 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal adolygiadau wedi'u targedu o anghenion staffio mewn meysydd gweithrediadol allweddol. Canfu un adolygiad o waith cynnal a chadw ataliol wedi'i gynllunio fod bylchau yn y gweithlu ac o ran sgiliau'n effeithio ar gydymffurfio â gofynion Memoranda Technegol Iechyd.

92 Mewn ymateb, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gymeradwyo a recriwtio i 10.4 o swyddi cyfwerth ag amser cyflawn ychwanegol. Mae eisoes wedi adrodd ar welliannau cynnar mewn dangosyddion perfformiad cynnal a chadw. Mae'r lefelau staffio uwch a ddangosir yn **Arddangosyn 6** yn debygol o fod yn adlewyrchiad o recriwtio'r aelodau ychwanegol hyn o staff.

93 Ni ddarparodd y Bwrdd Iechyd ddata ar ei ddefnydd o gontractwyr allanol. O ganlyniad, nid oeddem yn gallu asesu i ba raddau y defnyddir contractwyr i ategu'r gweithlu ystadau mewnol.

94 Mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd ar gyfradd swyddi gwag isel yn ei dîm ystadau. Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, roedd y gyfradd swyddi gwag yn 6.8% o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 11.6%. Roedd y gyfradd swyddi gwag wedi gwella i 1.6% erbyn mis Medi 2025.

95 Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, fe adroddodd y Bwrdd Iechyd hefyd ar gyfradd absenoldeb oherwydd salwch isel o 4.8% yn ei dîm ystadau. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd Cymru gyfan, sef 6.6%.

96 Yn 2024-25, ni wnaeth y Bwrdd Iechyd ddefnyddio staff asiantaeth i gefnogi ei dîm ystadau. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru hi'n ofynnol i gyrff y GIG roi'r gorau i ddefnyddio staff asiantaeth mewn ystadau erbyn 30 Medi 2025, ac fe atebodd y Bwrdd Iechyd y gofyniad hwn.

97 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod yr angen i foderneiddio a chryfhau ei weithlu ystadau. Mae ei Gynllun Gweithlu Gweithrediadol Ystadau, y cytunwyd arno yn 2026, yn canolbwyntio ar gynllunio ar gyfer olyniaeth, hyfforddiant, a gwella cydymffurfiaeth ym maes cynnal a chadw ataliol wedi'i gynllunio. Mae'r cynllun yn adnabod nifer o risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu, gan gynnwys gweithlu sy'n heneiddio ac ymddeoliadau posibl dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae pedwar ar ddeg y cant o staff ystadau'r Bwrdd Iechyd dros 60 oed, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 25.4%.

98 Mae'r cynllun yn amlygu bod trefniadau dros dro ar gyfer y Pennaeth Gwasanaethau Gweithrediadol Ystadau a Chyfleusterau wedi bod yn her dros y 12 mis diwethaf, am nad oedd gan y Bwrdd Iechyd Gyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu'r sgiliau a'r capasiti y mae eu hangen i ymateb i heriau allweddol dros y pum mlynedd nesaf. Mae'n amcanu at sicrhau bod y gweithlu'n cyd-fynd â'i flaenoriaethau dros y tymor byr, canolig a hir. Bydd newidiadau arfaethedig i rolau a chyfrifoldebau'n cael eu rhoi ar waith trwy'r broses newid sefydliadol, yn dilyn ymgynghori â staff a rhanddeiliaid.

99 Er gwaethaf oedi a achoswyd gan COVID-19, mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i fod yn ymrwymedig i'w raglen brentisiaethau. Mae'n bwriadu recriwtio wyth prentis ar draws safleoedd ei bedwar ysbyty acíwt erbyn 2028. Ategir y rhaglen gan gynlluniau gweithlu a ariennir, partneriaethau gyda cholegau lleol, trefniadau mentora, a chynllunio ar gyfer olyniaeth i helpu i ymdrin ag ymddeoliadau a phrinderau sgiliau yn y dyfodol.

100 Roedd cyfradd gwblhau adolygiadau datblygu perfformiad yn yr adran ystadau islaw'r targed o 85%. Ym mis Mawrth 2025, 82.9% oedd y gyfradd gwblhau. Mae hyn wedi gwella ers hynny i 88% ym mis Gorffennaf 2026.

101 Mae'r tîm ystadau wedi adnabod ei anghenion hyfforddi ac mae'n monitro cyfraddau cwblhau. Fodd bynnag, fe adnabuwyd bylchau mewn meysydd allweddol, gan gynnwys trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, atal a rheoli heintiau, llywodraethu gwybodaeth, a chodi a chario. Mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant sgiliau craidd wedi gwella ers hynny i 93%.

102 Cyfyngedig oedd y dystiolaeth a ganfuom ar sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn hyfforddi staff ystadau i ddefnyddio systemau rheoli ystadau digidol ac offer digidol eraill. Er bod cynllun y gweithlu'n adnabod anghenion hyfforddi ac yn cyfeirio at welliannau sy'n gysylltiedig â system adrodd CAFM newydd, nid oedd y dystiolaeth a ddarparwyd yn dangos lefel yr hyfforddiant a gwblhawyd, y costau, na chymhwysedd staff i ddefnyddio'r systemau hyn.

Argymhellion

103 Rydym wedi gwneud pum argymhelliad oherwydd ein gwaith.

A1 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei Strategaeth Ystadau newydd a'i Gynllun Strategol Asedau Eiddo wedi'i ddiweddaru (2027-2030) yn nodi blaenoriaethau, cerrig milltir, targedau, graddfeydd amser, a threfniadau atebolrwydd eglur. Dylai'r strategaeth ddangos hefyd sut y mae ystyriaethau i gydraddoldeb, ffactorau economaidd-gymdeithasol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn goleuo gwaith i gynllunio ystadau a gwneud penderfyniadau ynglŷn â hwy **(paragraffau 10 ac 13)**.

A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd sefydlu mesur deilliant strategol ar gyfer ei ystâd, a ategir gan dargedau eglur ac adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd. Byddai hyn yn helpu i ddangos a yw perfformiad yr ystâd yn gwella dros amser **(paragraff 33)**.

A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei drefniadau rheoli asedau trwy ddatblygu cofrestr asedau cyflawn a dibynadwy a gwella cysylltiadau rhwng ei systemau. Byddai hyn yn cefnogi trefniadau mwy effeithiol ar gyfer cynllunio gwaith cynnal a chadw, monitro cydymffurfiaeth, ac adrodd ar berfformiad asedau **(paragraff 66)**.

A4 Dylai'r Bwrdd Iechyd wella sut y mae'n casglu, yn cofnodi ac yn adrodd ar wybodaeth am effaith cyflwr yr ystâd ar ddiogelwch cleifion, profiad staff, a darparu gwasanaethau. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r ystâd, yn ogystal ag adborth gan staff a chleifion **(paragraff 77)**.

A5 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu a gweithredu cynllun eglur i wella cydymffurfiaeth statudol. Dylai'r cynllun ymdrin â risgiau sy'n dal i fodoli i ddiogelwch tân a dŵr a darparu adroddiadau rheolaidd ar gynnydd, risgiau allweddol, a chamau gweithredu arfaethedig **(paragraffau 82 ac 85)**.

Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith

Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaethom fwrw golwg ar y meysydd canlynol, fel y maent yn berthnasol i ystadau, yn ystod y cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Mai 2026:

- cynllunio strategol;
- trefniadau llywodraethu;
- defnyddio adnoddau ariannol;
- cynhyrchiant ac effeithlonrwydd yr ystâd;
- goblygiadau ar gyfer ansawdd a diogelwch; a
- rheoli'r gweithlu.

Ni wnaethom fwrw golwg ar:

- brosiectau ystadau mawr a ariennir (neu a allai gael eu hariannu) trwy Raglen Cyfalaf Iechyd Cymru Gyfan;
- rheoli ystadau'n weithrediadol, gan gynnwys rheoli ystâd sydd ar les;
- gwasanaethau 'rheoli cyfleusterau'n feddal' megis gwasanaethau glanhau neu ddiogelwch, sydd hefyd yn allweddol i gefnogi ystâd sy'n addas ar gyfer y diben; ac
- ystadau gofal sylfaenol.

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiynau

Fe ymdriniodd ein harchwiliad â'r cwestiynau canlynol:

- A oes gan gorff y GIG ddull cynllunio eglur ar gyfer ei ystâd yn y tymor canolig a hwy?

- A oes gan gorff y GIG drefniadau llywodraethu effeithiol ar gyfer rheoli ystadau?
- A yw corff y GIG yn defnyddio'r adnoddau ariannol sydd ar gael iddo ar gyfer ystadau mewn modd priodol?
- A oes gan gorff y GIG ystâd effeithlon a chynhyrchiol?
- A yw ystâd y GIG yn cefnogi ansawdd gofal a phrofiad cleifion a staff?
- A oes gan gorff y GIG drefniadau effeithiol i reoli gweithlu ei ystâd?

Meini prawf

Fe wnaethom asesu dull y Bwrdd Iechyd yn erbyn meini prawf archwilio a siapiwyd gan:

- Fframweithiau cynllunio GIG Cymru a dogfennau cynllunio perthnasol eraill gan GIG Cymru, gan gynnwys Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru 2021-30;
- deddfwriaeth, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED);
- canllawiau perthnasol gan Bartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG;
- gwaith archwilio blaenorol ar reoli ystadau'r GIG.

Dulliau

Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:

- papurau a chofnodion y Bwrdd a phwyllgorau;
- dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys y Grŵp Cyflawni Ansawdd, Cyllid a Pherfformiad Integredig, a'r Grŵp Llywodraethu Integredig Ystadau a Chyfleusterau;
- strategaethau a chynlluniau allweddol, gan gynnwys y Cynllun Blynyddol, y Cynllun Strategol Asedau Eiddo, a'r Cynllun Cyfalaf;
- dogfennau rheoli risg allweddol gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

Fe wnaethom gyfweld â'r rhanddeiliaid allweddol canlynol:

- Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio;
- Cyfarwyddwr Gweithredol Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Gwyddor Iechyd;
- Pennaeth Ystadau a Chyfleusterau Gweithrediadol;
- Pennaeth Perfformiad Eiddo;
- Rheolwr Iechyd a Diogelwch, a'r Pennaeth Ystadau, Risg, Cydymffurfio, Polisi, a Systemau.

Fe wnaethom adolygu data cenedlaethol sydd ar gael o'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS), ffurflenni monitro ariannol misol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, a data lleol a ddarparwyd i ni gan y Bwrdd Iechyd. Nid ydym wedi archwilio'r data o'r ffynonellau hyn.

2 Maint a lleoliad y gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni yn y Bwrdd Iechyd

Mae'r map isod yn dangos maint a lleoliad yr ôl-groniad wedi'i asesu ar gyfer risg yn y Bwrdd Iechyd yn 2024-25. Nid yw'n cynnwys safleoedd ag ôl-groniad o £1 miliwn neu lai.

Arddangosyn 7: maint a lleoliad yr ôl-groniad wedi'i addasu ar gyfer risg yn y Bwrdd Iechyd, 2024-25 (£ miliwn)



3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

Term	Disgrifiad
Addas yn swyddogaethol	Y ganran o arwynebedd llawr a feddiannir sy'n cyrraedd safon Cyflwr B Cod Ystadau Cymru 2018.
Arwynebedd llawr a feddiannir	Cyfanswm arwynebedd llawr adeiladau a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau'r GIG, gan gynnwys lleoedd a berchnogir, sydd ar les, neu a ddefnyddir dan gytundebau.
Bwrdd Cynghori ar Ystadau a Chyfleusterau (EFAB)	Rhaglen o gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru a wnaeth gefnogi gwelliannau wedi'u targedu i ystadau ar draws GIG Cymru, gan gynnwys seilwaith, datgarboneiddio a diogelwch tân. Fe'i disodlwyd gan y Gronfa Ystadau wedi'i Thargedu (TEF) yn 2025-26.
Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach	Strategaeth hirdymor Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i wella gwasanaethau iechyd trwy symud mwy o ofal yn nes at adref, gwella atal a llesiant, a datblygu gwasanaethau ysbyty a seilwaith ystadau cynaliadwy.
Cod Ystadau Cymru 2018	Mae'n rhoi cyngor manwl ynghylch sut i reoli tir ac adeiladau a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd.
Cronfa Ystadau wedi'i Thargedu	Cronfa gyfalaf gan Lywodraeth Cymru sy'n targedu risgiau sy'n gysylltiedig ag ystadau y rhoddir blaenoriaeth uchel iddynt yn y GIG, gan gynnwys diogelwch, cydymffurfio a gwydnwch. Mae'n darparu £80 miliwn (2025-27), gyda chyrff y GIG yn cyfrannu 30%.

Term	Disgrifiad
Cyfalaf dewisol	Arian y gall sefydliad ei ddyrannu yn ôl ei ddisgresiwn ei hun.
Cyflwr ffisegol B	Fe'i diffinnir gan God Ystadau Cymru 2018 fel adeilad sy'n gadarn, yn ddiogel yn weithrediadol, ac yn dangos mân ddirywiad yn unig.
DATIX	System electronig a ddefnyddir ar draws GIG Cymru i gofnodi, rheoli a dadansoddi digwyddiadau, pryderon, cwynion, a risgiau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion.
Defnydd o le	Y ganran o arwynebedd llawr a feddiannir sy'n cael ei defnyddio fel a ddiffinnir yng Nghod Ystadau Cymru 2018.
Gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni	Mesur o'r buddsoddiad y mae ei angen i adfer adeilad i safon benodedig, yn seiliedig ar asesiad risg.
Memorandwm Technegol Iechyd (HTM)	Canllawiau technegol y GIG sy'n pennu safonau ar gyfer peirianneg, diogelwch, a gweithrediadau mewn ystadau gofal iechyd i sicrhau amgylcheddau sy'n ddiogel ac yn cydymffurfio.
Model Landlord Corfforaethol	Dull rheoli ystâd lle mae cyfrifoldeb am gynllunio, buddsoddi, cynnal a chadw, a defnyddio asedau'r ystâd yn cael ei gydgysylltu trwy swyddogaeth ystadau ganolog, gan helpu i gefnogi prosesau penderfynu cyson a defnydd strategol o adnoddau.
Occupeye	System monitro meddiannaeth seiliedig-ar-synwyryddion sy'n darparu data ar sut y defnyddir lleoliadau gwaith, gan helpu sefydliadau i wella'r modd y mae lle'n cael ei ddefnyddio ac y mae'r ystâd yn cael ei chynllunio.

Term	Disgrifiad
Ôl-groniad risg sylweddol	Atgyweiriadau neu amnewidiadau y mae angen gweithredu ar frys i ymdrin â hwy i osgoi pryderon ynghylch cydymffurfio neu risgiau i ddarparu gofal iechyd yn ddiogel.
Ôl-groniad risg uchel	Materion y mae angen gweithredu arnynt ar frys i atal methiant difrifol, sefyllfa a fydd yn tarfu'n fawr ar wasanaethau, neu risgiau i ddiogelwch a allai beri niwed neu arwain at gamau cyfreithiol.
Ôl-groniad wedi'i addasu ar gyfer risg	Cost amcangyfrifedig cyweirio materion cynnal a chadw, a bwysolir yn ôl pa mor ddifrifol yw'r risg i ddiogelwch, gwasanaethau, neu gydymffurfio.
Person Cyfrifol	Uwch reolwr â chyfrifoldeb ar y cyfan am sicrhau bod ystâd neu system beirianneg yn ddiogel, yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a Memoranda Technegol Iechyd, ac yn cael ei rheoli gan staff cymwys.
Proses newid sefydliadol	Ffordd strwythuredig o gynllunio a rheoli newid. Mae'n helpu sefydliadau i wella sut y maent yn gweithio a gwneud newidiadau mewn ffordd eglur, deg, a threfnus, gan roi gwybodaeth gyson i staff a sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i redeg yn effeithiol.
Rheoli Cyfleusterau â Chymorth Cyfrifiadur (CAFM)	System a ddefnyddir i reoli gwaith ystadau a chyfleusterau, gan gynnwys cofnodion asedau, gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio ac adweithiol, gwiriadau cydymffurfio, ac adrodd.
System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS)	Rhaglen i Gymru gyfan a ddefnyddir i gasglu data ac adrodd am ddata ar ystadau a chyfleusterau'r GIG. Mae o gymorth i fonitro, meincnodi a gwella perfformiad ac mae'n goleuo prosesau cynllunio a phenderfynu.

4 Ymateb y Rheolwyr

Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A1 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei Strategaeth Ystadau newydd a'i Gynllun Strategol Asedau Eiddo wedi'i ddiweddaru (2027-2030) yn nodi blaenoriaethau, cerrig milltir, targedau, graddfeydd amser, a threfniadau atebolrwydd eglur. Dylai'r strategaeth ddangos hefyd sut y mae ystyriaethau i gydraddoldeb, ffactorau economaidd-gymdeithasol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn goleuo gwaith i gynllunio ystadau a gwneud	Unwaith y bydd y cynlluniau strategol tymor hwy sy'n gysylltiedig â'r rhaglenni Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach wedi'u cytuno gyda Llywodraeth Cymru, bydd y Bwrdd Iechyd yn datblygu Strategaeth Ystadau newydd i roi cymorth i'w cyflawni. Cyn hyn bydd yn cyflawni rhaglen resymoli garlam ac yn diwygio'r Cynllun Strategol Asedau Eiddo (2027-30). Ochr yn ochr â hyn, bydd y Model Landlord Corfforaethol sy'n cael ei sefydlu'n amcanu at gryfhau trefniadau llywodraethu, prosesau penderfynu wedi'u dirprwyo, cynllunio seiliedig-ar-asedau a		

Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
penderfyniadau ynglŷn â hwy (**paragraffau 10 ac 13**).	mecanweithiau atebolrwydd gwell a fydd o gymorth yn uniongyrchol i roi'r argymhelliad hwn ar waith. Gall y Bwrdd Iechyd archwilio fframwaith perfformiad ystadau strategol trwy'r Strategaeth Ystadau newydd. Mae'r Achos Busnes Landlord Corfforaethol eisoes yn cynnig fframwaith dangosyddion perfformiad allweddol cynhwysfawr gan gynnwys mesurau perfformiad ar gyfer defnydd, cynnal a chadw, cost, cyflawni prosiectau a chwsmeriaid a fydd o gymorth i adrodd ar ddeilliannau strategol a'u monitro.		

Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	Camau Gweithredu: • Bwrdd Iechyd i ddiwygio a chymeradwyo Cynllun Strategol Asedau Eiddo newydd – 2027/2028 • Bwrdd Iechyd i ddiwygio a chymeradwyo Strategaeth Ystadau newydd gan gynnwys fframwaith a metrigau allweddol – 2028	Mehefin 2027 Mehefin 2028	Pennaeth Eiddo Pennaeth Gweithrediadau Ystadau
A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd sefydlu mesur deilliant strategol ar gyfer ei ystâd, a ategir gan dargedau eglur ac adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd. Byddai hyn	Mae hwn yn cael ei adolygu a bydd ar waith gyda chymeradwyaeth yn fuan.	Mawrth 2027 ar y cyfan	Pennaeth Gweithrediadau Ystadau

Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
yn helpu i ddangos a yw perfformiad yr ystâd yn gwella dros amser (**paragraff 33**).	Camau Gweithredu: • Cynnal cyswllt â Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar gyfer ymgynghori ynghylch mesur priodol. Cyfarfod wedi'i gytuno a'i amserlennu. • Gweithredu a chyflwyno adroddiadau misol ar gyfer y mesur gan gynnwys yn y Grŵp Gofal Clinigol Ystadau a'i gynnwys yn adroddiadau'r Tîm Perfformiad. • Ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor a/neu'r Bwrdd i'r mesur deilliant strategol.	Tachwedd 2026 Tachwedd 2026 Mawrth 2027	Pennaeth Gweithrediadau Ystadau Pennaeth Gweithrediadau Ystadau Pennaeth Gweithrediadau Ystadau

Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei drefniadau rheoli asedau trwy ddatblygu cofrestr asedau cyflawn a dibynadwy a gwella cysylltiadau rhwng ei systemau. Byddai hyn yn cefnogi trefniadau mwy effeithiol ar gyfer cynllunio gwaith cynnal a chadw, monitro cydymffurfiaeth, ac adrodd ar berfformiad asedau (**paragraff 66**).	Mae'r Model Landlord Corfforaethol yn darparu mecanwaith cyflawni arwyddocaol ar gyfer yr argymhelliad hwn trwy welliannau i brosesau gwybodaeth am asedau, integreiddio systemau, cynllunio gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio, adrodd ar lefel asedau, a herio asedau. Camau Gweithredu: • Bydd hyn yn cynnwys cyflawni arolygon o'r ystâd sy'n rhoi sylw i Agweddau'r Cod Ystadau ar draws yr ystâd a gadwyd. Mae'r	Mawrth 2028 Mehefin 2027	Pennaeth Eiddo Pennaeth Eiddo

Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	Bwrdd Iechyd yn archwilio opsiynau cyllid yn hyn o beth. • Datblygu strategaeth rheoli asedau seiliedig-ar-risg sy'n nodi ein gweledigaeth a'n nodau ar gyfer y Bwrdd Iechyd. • Datblygu system i adnabod asedau ystadau Blaenoriaeth 1 (Cam 1). I ategu: • Rheoli cydymffurfiaeth statudol • Cynnal a chadw ataliol wedi'i gynllunio • Dadansoddi a chynllunio ar gyfer amnewid dros gylch oes	Yn gysylltiedig ag argymhelliad 1 Awst 2027	Pennaeth Risg a Chydymffurfio Ystadau

Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	• Gwydnwch seilwaith critigol • Adroddiadau'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau/ adroddiadau ar ystadau		
A4 Dylai'r Bwrdd lechyd wella sut y mae'n casglu, yn cofnodi ac yn adrodd ar wybodaeth am effaith cyflwr yr ystâd ar ddiogelwch cleifion, profiad staff, a darparu gwasanaethau. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r ystâd, yn ogystal	Bydd trefniadau presennol ar gyfer hysbysu am ddigwyddiadau a threfniadau llywodraethu yn hynny o beth yn cael eu hadolygu i gryfhau prosesau ar gyfer casglu gwybodaeth ac adrodd am wybodaeth am ddiogelwch, gwasanaethau a phrofiad defnyddwyr lle mae ystadau yn y cwestiwn.		

Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
ag adborth gan staff a chleifion (**paragraff 77**).	Camau Gweithredu: • Bydd yr holl staff Ystadau'n cael eu hyfforddi i ddefnyddio Civica, gyda hynny'n cael ei gytuno gyda'r Pennaeth Profiad Cleifion. Hyfforddiant i gael ei amserlennu.	Rhagfyr 2026	Pennaeth Gweithrediadau Ystadau
	• Fframwaith Profiad Pobl Cymru Gyfan. Pennaeth Profiad Cleifion i anfon cyswllt at y tîm ystadau ar gyfer adolygu a hyfforddiant.	Rhagfyr 2026	Pennaeth Gweithrediadau Ystadau
	• Adolygiadau rheolaidd a chyson o hawliadau am anafiadau personol mewn partneriaeth gyda'r tîm Cyfreithiol a Risg i adolygu gwersi a ddysgwyd ar draws yr Ystâd.	Awst 2026 – Wedi'i gwblhau ac yn barhaus	Pennaeth Gweithrediadau Ystadau

Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A5 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu a gweithredu cynllun eglur i wella cydymffurfiaeth statudol. Dylai'r cynllun ymdrin â risgiau sy'n dal i fodoli i ddiogelwch tân a dŵr a darparu adroddiadau rheolaidd ar gynnydd, risgiau allweddol, a chamau gweithredu arfaethedig (**paragraffau 82 ac 85**).	Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i gryfhau trefniadau gwella diogelwch tân a dŵr trwy raglenni a strwythurau llywodraethu presennol. Camau Gweithredu: • Dangos llywodraethu da mewn perthynas â phresenoldeb mewn cyfarfodydd a monitro perfformiad ar gyfer y Grŵp Diogelwch Tân a'r Grŵp Diogelwch Dŵr, gan gynnwys cofnodion, camau gweithredu, Cylchoedd Gorchwyl, Uwchgyfeirio risgiau ac adrodd arnynt. Mae'n hollbwysig	Rhagfyr 2026	Pennaeth Cynnal a Chadw a Pheirianneg

Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	dangos llif risgiau tuag i fyny i'r Grŵp Cydymffurfiaeth Iechyd a Diogelwch, a'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.		
	• Darparu adroddiad a thystiolaeth ar Ddadansoddi Anghenion Hyfforddi a gweithredu yn erbyn y risgiau hyn.	Rhagfyr 2026	Pennaeth Cynnal a Chadw a Pheirianneg
	• Darparu tystiolaeth ar Ddull y Bwrdd Iechyd o ymateb i'r Memorandwm Technegol Iechyd ar Ddŵr a'i waith i roi polisïau Diogelwch Dŵr a Diogelwch Tân cymeradwy ar waith.	Rhagfyr 2026	Pennaeth Gweithrediadau Ystadau

Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	• Dogfennu'r holl archwiliadau yn erbyn Tân a dŵr gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru o fewn y system AMaT a dangos bod camau gweithredu wedi cael eu cwblhau o fewn y fframiau amser a aseiniwyd hyd at y dyddiad hwn y cytunwyd arno.	Gorffennaf 2027	Pennaeth Gweithrediadau Ystadau
	• Dangos bod 2il gam gwaith prosiectau tân mawr yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg ac Ysbyty Glangwili wedi cael ei gwblhau gan gynnwys lleihau'r sgôr risg yn erbyn Cyfeirnod Risg 813.	Rhagfyr 2029	Pennaeth Gweithrediadau Ystadau

Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.